

# Amddiffyn 30% o dir a môr Cymru i helpu sicrhau adferiad natur

Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL) yn croesawu cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r targed o amddiffyn 30% o dir a môr ar gyfer natur erbyn 2030 ('30x30'), fel rhan o ymdrechion rhyngwladol i atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth.

## Pam fod hyn yn bwysig?

Mae mynd i'r afael â argyfwng natur a hinsawdd ac adfer amgylchedd naturiol iach ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn her hanfodol ar gyfer y degawd nesaf.

Er bod targedau byd-eang wedi'u gosod o'r blaen i atal a gwrthdroi dirywiad natur, daeth y 5ed Rhagolwg Bioamrywiaeth Byd-eang a gyhoeddwyd yn gynharach eleni i'r casgliad bod y DU – a gweddill y byd – wedi methu â chyflawni'r targedau hyn. Yng Nghymru, fe ddaeth Adroddiad Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020 (SoNaRR) i'r casgliad fod y duedd gyffredinol ar gyfer bioamrywiaeth yng Nghymru yn un o ddirywiad difrifol, yn unol â thueddiadau byd-eang. O ran y môr, mae Cymru wedi methu â chyflawni Statws Amgylcheddol Da[1] ar gyfer y moroedd erbyn 31 Rhagfyr 2020, fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau'r Strategaeth Forol (2010)[2].

## Sut y dylid diffinio'r targed o 30% ar dir a beth ddylai gyfrif tuag ato?

Gyda'r dynodiadau tirwedd ehangach – Parciau Cenedlaethol ac AHNE[3] – wedi'u cynnwys, mae 29.4% o'r tir yng Nghymru o fewn ardaloedd gwarchodedig. Fodd bynnag, pan fyddwch yn eithrio'r rhannau hynny o Barciau Cenedlaethol ac AHNE nad ydynt wedi'u cynnwys mewn dynodiad cadwraeth natur penodol, **mae canran y tir a ddiogelir ar gyfer natur yng Nghymru ar hyn o bryd yn ddim ond 10.6%**[4]. Nododd gwerthusiad sylfaenol a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan CNC[5], oherwydd monitro cyfyngedig, ei bod yn bosibl adrodd ar gyflwr dim ond tua hanner nodweddion safleoedd gwarchodedig, ac mai dim

Cyswllt Amgylchedd Cymru (Elusen Gofrestredig.1022675) © 2021 Cyswllt Amgylchedd Cymru

ond 20% o nodweddion safle gwarchodedig sy'n cael eu hystyried o fod mewn cyflwr ffafriol. Mae hyn yn awgrymu, mewn gwirionedd, bod llawer llai na 10.6% o'n tir yn cael ei amddiffyn a'i reoli'n effeithiol ar gyfer natur. Er bod gan Barciau Cenedlaethol ac AHNE y potensial i gyfrannu'n sylweddol tuag at y targed o 30%, dim ond y rhannau hynny ohonynt sy'n cwrdd â meini prawf amddiffyn tymor hir, rheolaeth gadarnhaol ar gyfer natur a chyflwr da ddylai gyfrif.

**Mae WEL yn credu bod yn rhaid i ardaloedd fodloni dau amod er mwyn cyfrannu tuag at darged '30% erbyn 2030 ',**

1. Eu bod nhw wedi'u gwarchod ar gyfer natur yn y tymor hir: dylid rhoi amddiffyniad hirdymor i'r cyfan o'r 30% ar gyfer natur ac amddiffyniad tymor hir rhag difrod fel llygredd, gor-ecsbloetio, rhywogaethau anfrodorol ymledol, dinistrio cynefinoedd a datblygu.
2. Eu bod nhw wedi'u reoli'n dda ac mewn cyflwr da neu'n gwella: rhaid eu monitro'n rheolaidd ar gyfnodau priodol fel rhan o raglen rheoli a buddsoddi gweithredol.

**Gellir cyflawni'r targed hwn o 30% trwy:**

- Gwella amddiffyniad, monitro rheolaeth ar y gyfres bresennol o SSSIs, SACs, SPAs a safleoedd Ramsar, ac ehangu'r ardaloedd sy'n cael eu cynnwys yn y dynodiadau hyn trwy sicrhau bod pob darn o dir sy'n cwrdd â'r meini prawf cymhwyso wedi'u dynodi;
- Diwygio tirweddau dynodedig i roi gofyniad clir i Barciau Cenedlaethol[6] ac AHNE chwarae mwy o ran wrth wrthdroi colli bioamrywiaeth, ynghyd â'r pwerau, yr offer a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i gyflawni hyn.
- Gellid cynnwys safleoedd neu ardaloedd eraill hefyd, ond rhaid iddynt fynd trwy broses asesu gadarn a rhaid iddynt, yn amlwg, gwrdd â'r ddau amod a amlinellir uchod. Er enghraifft, mae Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol a gwarchodfeydd natur yn ffurfio adnodd naturiol sylweddol o gynefinoedd adferol o ansawdd da. Dylid adolygu dynodiadau safle perthnasol i gryfhau'r amddiffyniad tymor hir y maent yn ei gynnig ar gyfer natur.

## Sut y dylid diffinio'r targed o 30% ar y môr a beth ddylai gyfrif tuag ato?

Er bod ardal sylweddol o foroedd Cymru wedi'u dynodi'n Ardaloedd Morol Gwarchodedig, mae'r mwyafrif o'r rhain yn parhau i fod mewn cyflwr anffafriol neu anhysbys. Cred WEL felly y dylai Llywodraeth Cymru osod targed bod, o leiaf 2030, o leiaf 30% o foroedd Cymru o fewn MPAs[7] a ddiogelir yn llawn neu'n uchel, yng nghyd-destun rhwydweithiau ecolegol ehangach. Ar ben hynny, dylai o leiaf 10% o foroedd Cymru fod o fewn ardaloedd gwarchodedig llawn erbyn 2030. Rydym yn cyfeirio at y termau sydd wedi'u gwarchod yn llawn ac yn uchel gan ddefnyddio'r diffiniadau canlynol[8]:

- **Wedi'u diogelu'n llawn**: ni chaniateir unrhyw weithgareddau echdynnol na dinistriol, a chaiff yr holl effeithiau niweidiol eu lleihau
- **Wedi'u diogelu'n yn uchel:** dim ond gweithgareddau echdynnu ysgafn sy'n cael eu caniatáu, ac mae effeithiau eraill yn cael eu lleihau gymaint â phosibl

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw MPA a ddiogelir yn llawn nac yn uchel yng Nghymru. O'r herwydd, byddai hyn yn gofyn am newid rheolaeth rhai safleoedd presennol a / neu ddynodi rhagor o MPAs.

## Casgliad

Byddai amddiffyn a rheoli 30% o dir a 30% o'r môr yn effeithiol ar gyfer natur yn helpu gwrthdroi dirywiad tymor hir bywyd gwyllt yng Nghymru, adfer cynefinoedd a phoblogaethau bywyd gwyllt ac fe fyddai'n dod â manteision sylweddol eraill i'r hinsawdd a phobl. Fodd bynnag, nid yw hyn ar ei ben ei hun yn ddigonol a bydd adferiad natur hefyd yn dibynnu ar yr hyn sy'n digwydd i'r 70% sy'n weddill. Bydd yn hanfodol integreiddio targedau adfer natur i feysydd polisi ehangach – megis cynlluniau defnydd tir a môr, polisi pysgodfeydd a ffermio (gan sicrhau fod ffermwyr a rheolwyr tir yn cael eu talu'n deg am reoli eu tir er budd natur).


1. Marine Strategy Regulations 2010
   www.legislation.gov.uk/uksi/2010/1627/schedule/1/made
2. Marine Strategy Regulations 2010
   www.legislation.gov.uk/uksi/2010/1627/contents/made
3. Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol
4. JNCC Protected areas
   jncc.gov.uk/our-work/ukbi-c1-protected-areas/
5. Cyfoeth Naturiol Cymru
6. Un o bwrpasau statudol Parciau Cenedlaethol yw gwarchod a gwella harddwch naturiol, byd natur ac etifeddiaeth diwylliannol, tra bod AHNE yn cael eu dynodi i warchod a gwella harddwch naturiol.
7. Marine Protection Areas
8. Protected Plant Marine Protected Areas Guide
   www.protectedplanet.net/en/resources/mpa-guide



**Cyswllt Amgylchedd Cymru**
Tramshed Tech
Uned D
Stryd Pendyris
Caerydydd
CF11 6BH
**enquiry@waleslink.org**
**www.waleslink.org**
**Twitter: @WalesLink**